**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-VG-0726-22

Huw Iranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddLJC@senedd.wales

3 Mawrth 2022

Annwyl Huw,

Diolch am adroddiad y Pwyllgor a osodwyd ar 8 Chwefror mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhenti Masnachol (Coronafeirws).

Gweler fy ymateb i'ch argymhelliad isod.

**Argymhelliad 1.** O ystyried datganiad y Gweinidog ym mharagraff 28 o'r Memorandwm "nad oes llawer o dystiolaeth i awgrymu a yw dyled rhent tenantiaethau busnes sydd heb ei thalu yn broblem fawr yng Nghymru ai peidio", dylai'r Gweinidog, cyn gynted â phosibl a chyn dadl y Senedd ar gynnig cydsyniad perthnasol, ddarparu rhesymeg a chyfiawnhad mwy llawn dros fynd ar drywydd darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil.

**Ymateb:** Gallaf gadarnhau bod data diweddar yn awgrymu y bydd tua 7,500 o achosion rhenti masnachol yn mynd drwy'r cynllun cymrodeddu ledled y DU. Mae'n bwysig y dylai unrhyw fusnes yng Nghymru, sy'n dod o fewn cwmpas y Bil, allu elwa ar y drefn gymrodeddu a'r amddiffyniadau a ragwelir gan y Bil a fydd hefyd yn cael eu rhoi i'w cymheiriaid yn Lloegr. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y bwriad i ddod â rhai amddiffyniadau i ben, megis y moratoriwm y darperir ar ei gyfer ar hyn o bryd o dan adran 82 o Ddeddf Coronafeirws 2020.

Gallaf gadarnhau bod nifer o drafodaethau brys a helaeth ynghylch y Bil wedi'u cynnal ar lefel swyddogol a gweinidogol gydag Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU. Rwyf wedi gosod Memorandwm atodol heddiw yn argymell cydsyniad ar sail y cymalau diwygiedig arfaethedig a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'w hystyried yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ar 14 Mawrth.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.